

Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd: Gwrando arnoch chi - Mae Eich Iechyd yn Bwysig

Hydref 2014

Cyflwyniad

Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r cynigion a'r materion a gaiff eu codi ym Mhapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Gwrando arnoch chi - Mae Eich Iechyd yn Bwysig, a hefyd rhai ymatebion gan randdeiliaid i'r cynigion hyn.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn dilyn Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar iechyd y cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2012. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod ymatebion i'r Papur Gwyrdd yn dangos cefnogaeth eang i gymryd camau deddfwriaethol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd a lles.

Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau o ran iechyd y cyhoedd, megis effeithiau tybaco, camddefnyddio alcohol a gordewdra. Caiff y cynigion hyn eu grwpio o dan dair thema allweddol.

- **Gwella iechyd gydol oes**, drwy gynigion i gyflwyno cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco, cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus, cyflwyno Isafswm Pris Uned ar gyfer alcohol, a datblygu safonau maeth ar gyfer lleoliadau penodol. Mae hefyd yn gofyn am safbwyntiau cychwynnol ar fannau agored di-fwg a gwerthu tybaco dros y rhyngwyd.
- **Adeiladu asedau cymunedol ar gyfer iechyd**, drwy gynigion i atgyfnerthu rôl Byrddau Iechyd Lleol wrth gynllunio gwasanaethau iechyd y cyhoedd drwy fferyllfeydd cymunedol a gwella

mynediad i doiledau i'r cyhoedd.

- **Rheoleiddio ar gyfer iechyd**, drwy gynnis i gyflwyno Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig i reoleiddio safonau ar gyfer gweithgareddau fel tyllu cosmetig a thatwio.

Gwella iechyd gydol oes

Tybaco

Y Cynnig:

Ei gwneud yn ofynnol i holl fanwerthwyr cynhyrchion tybaco gofrestru â chofrestr manwerthwyr tybaco.

Nod:

Lleihau nifer yr achosion o werthu cynhyrchion tybaco i'r rhai o dan 18 oed a'i gwneud hi'n haws i swyddogion safonau masnach orfodi'r gwaharddiad ar arddangos cynhyrchion tybaco.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n cynnis cyflwyno ffi gofrestru gychwynnol o £30, yn ogystal â £10 ar gyfer pob safle arall a gofrestrir. Mae hefyd yn cynnis y dylid talu ffi o £20 i ailgofrestru yn ogystal â £10 am bob safle arall a gofrestrir, a fydd yn daladwy bob tair blynedd. Byddai swyddogion safonau masnach awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi manwerthwyr i gofrestru a byddai'r deddfwriaeth yn cyflwyno troseddau neu gosbau newydd mewn perthynas â methiant i gofrestru.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod Llywodraeth Cymru hefyd yn wreiddiol yn bwriadu cynnis ei gwneud yn drosedd prynu neu geisio prynu cynhyrchion tybaco ar ran rhywun o dan 18 oed. Fodd bynnag, mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 bellach wedi ei gwneud yn drosedd i brynu tybaco ar ran rhywun o dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr.

Ymateb:

Mae ASH Cymru yn cytuno â'r cynnis i gyflwyno cofrestr manwerthwyr ac mae'n croesawu'r cam fel mesur er mwyn helpu i atal achosion o werthu



tybaco i'r rhai o dan 18 oed a gwerthu tybaco anghyfreithlon. Mewn ymateb i'r Papur Gwyn, mae'n cytuno y bydd creu cofrestr manwerthwyr tybaco yn ei gwneud hi'n haws i Swyddogion Safonau Masnach nodi manwerthwyr tybaco at ddibenion profion prynu a gweld a ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau arddangos mewn mannau gwerthu.

Sigaréts electronig

Y Cynnig:

Gwahardd y defnydd o sigaréts electronig (e-sigaréts) mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig (gan gynnwys gweithleoedd) yng Nghymru.

Nod:

Adlewyrchu pryderon cynyddol ymhlith ymarferwyr iechyd y cyhoedd fod perygl y gallai smygu gael ei normaleiddio wrth i e-sigaréts ddod yn fwy poblogaidd.

Mae Llywodraeth Cymru'n pryderu bod y defnydd o e-sigaréts yn ei gwneud hi'n anodd gorfodi *Rheoliadau Di-fwg 2007* ac yn eu tanseilio. Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru wedi cyfeirio at anawsterau o ran gorfodi'r gwaharddiad presennol ar smygu am ei bod yn hawdd camgymryd e-sigarét am sigarét gonfensiynol. Mae pryderon hefyd y gallai defnydd eang o e-sigaréts normaleiddio'r weithred o smygu yn gyhoeddus unwaith eto ac arwain at smygu cynhyrchion tybaco confensiynol.

Ymateb:

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru¹ yn croesawu'r cynnig. Mae'n awgrymu yn ei datganiad sefyllfa² ar sigaréts electronig ym mis Tachwedd 2013 y dylid gwahardd e-sigaréts (fel sigaréts arferol) mewn gweithleoedd, mannau addysgol a mannau cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau nad yw eu defnydd yn tanseilio'r gwaith a wnaed mewn perthynas ag

¹ Iechyd Cyhoeddus Cymru, **eitem newyddion ar wefan GIG Cymru**, Ebrill 2014 [cyrchwyd 1 Hydref 2014]

² Datganiad Sefyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, E-Cigarettes or Electronic Nicotine Delivery Systems (ENDS), Tachwedd 2013

atal smygu a rhoi'r gorau i smygu drwy atgyfnerthu neu normaleiddio'r arfer.

Yn yr un modd, mae BMA Cymru³ yn credu y dylid ehangu'r ddeddfwriaeth ddi-fwg bresennol i gynnwys anwedd o e-sigaréts. Hefyd, fel mesur dros dro, byddai'n annog cyflogwyr i weithredu polisïau ar gyfer sefydliadau cyfan sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn eu gweithleoedd.

I'r gwrthwyneb, ar hyn o bryd, nid yw ASH Cymru o blaid deddfwriaeth i wahardd y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig. Mae'n nodi nad oes tystiolaeth glir ar hyn o bryd i awgrymu y byddai'r cam o fudd i iechyd y cyhoedd mewn ffordd debyg i'r 'gwaharddiad ar smygu'. Mae ASH Cymru'n nodi y gall hyd yn oed gael effaith negyddol ar smygwyr presennol y gallent fod wedi ceisio rhoi'r gorau iddi fel arall, a allai arwain at niweidio yn hytrach na gwella iechyd y cyhoedd.

Mae ASH Cymru'n nodi nad yw wedi gweld tystiolaeth eto i awgrymu bod y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus yn tanseilio cydymffurfiaeth â'r gwaharddiad ar smygu. Felly, mae'n argymhell y dylai safleoedd barhau i allu penderfynu drostynt eu hunain p'un a ydynt am ganiatáu'r defnydd o e-sigaréts. Mae hefyd yn nodi bod datblygiadau dylunio presennol yn golygu bod y rhan fwyaf o ddyfeisiau e-sigaréts yn llai tebygol o edrych fel sigaréts tybaco confensiynol ac yn fwy fel pennau ysgrifennu.

Cred ASH Cymru y byddai'n afresymol gosod yr un lefel o gosbau ar ddefnyddwyr sigaréts electronig â'r rhai sy'n smygu tybaco, o ystyried nad oes mwg ail-law yn codi o'r defnydd o sigaréts electronig ac felly nad oes llawer o niwed i'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio, os o gwbl.

³ **Ymateb BMA Cymru i'r ymgynghoriad** ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Mehefin 2014 [cyrchwyd 1 Hydref 2014]



Nid yw Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (Cymru)⁴ ychwaith o blaid gwaharddiad cynhwysfawr mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, oherwydd diffyg tystiolaeth ei fod yn peri risg sylweddol i bobl eraill.

Mannau agored di-fwg

Mater a godwyd:

P'un a oes angen deddfwriaeth er mwyn gorfodi gwaharddiadau smygu gwirfoddol presennol sy'n weithredol ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae plant.

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Reoli Tybaco yn cynnwys cam gweithredu i ystyried y posibilrwydd o ymestyn gofynion Rheoliadau Di-fwg 2007 i ardaloedd penodol o dir ysbytai, er enghraifft, o amgylch mynedfeydd lle mae cleifion, ymwelwyr a staff yn aml yn cynnull a lle gall fod llawer o fwg.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi mai dim ond pe bai tystiolaeth i ddangos bod nifer sylweddol o bobl yn wynebu risg y câi unrhyw is-ddeddfwriaeth o'r fath ei chyflwyno.

Ymateb:

Cred ASH Cymru fod gwaharddiadau gwirfoddol yn effeithiol mewn rhai achosion, fel mewn meysydd chwarae, ond nad yw hyn yn wir am diroedd ysbytai; mae gwaharddiadau gwirfoddol yn weithredol ers blynyddoedd ond maent yn cael eu hanwybyddu fel arfer gan gleifion, ymwelwyr a staff. Felly, mae ASH Cymru'n croesawu'r posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod y mater hwn yn cael ei ystyried yn ddifrifol..

Mae Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (Cymru) yn nodi y byddai'n cefnogi deddfwriaeth yn y maes hwn. Mae'n nodi pryderon tebyg ynghylch y ffaith bod y gwaharddiad gwirfoddol mewn ysbytai'n cael ei anwybyddu ac mae'n credu y byddai deddfwriaeth yn

helpu i orfodi'r gwaharddiad.

Gwerthu Tybaco dros y Rhyngrwyd

Mater a godwyd:

P'un a ddylid ystyried deddfwriaeth i'w gwneud hi'n drosedd dosbarthu cynhyrchion tybaco (a brynwyd ar-lein) i berson o dan 18 oed.

Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn am safbwyntiau ynglŷn â faint o broblem yw achosion lle mae plant a phobl ifanc yn cael gafael ar gynhyrchion tybaco ar ôl i gynhyrchion tybaco a brynwyd ar-lein gael eu dosbarthu iddynt a ph'un a ddylid cyflwyno deddfwriaeth.

Ymateb:

Noda ASH Cymru y byddai'n cefnogi'r egwyddor o gyflwyno deddfwriaeth ar y mater hwn, ond nad oes ganddo unrhyw dystiolaeth i nodi bod hyn yn broblem sylweddol, ac mae'n awgrymu bod angen gwneud mwy o waith ymchwil. Noda ASH Cymru nad yw'n glir ar hyn o bryd pwy fyddai'n gyfrifol a/neu'n atebol am orfodi'r mesur, ac mae angen rhagor o wybodaeth am y manylion.

Alcohol

Y Cynnig:

Cyflwyno Isafswm Pris Uned ar gyfer alcohol yng Nghymru.

Nod:

Lleihau ymhellach y niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.

Noda'r Papur Gwyn fod tystiolaeth ddiagramuol fod pris alcohol yn gwneud gwahaniaeth o ran faint a gaiff ei yfed.

Noda Llywodraeth Cymru y byddai cyflwyno Isafswm Pris Uned yn pennu pris sylfaenol ar gyfer uned o alcohol. Ni fyddai hyn yn cynyddu pris pob diod, dim ond y rhai sy'n cael eu gwerthu am lai nag Isafswm Pris Uned mewn perthynas â chynnwys alcohol, fel gwirodydd rhad a seidr gwyn.

⁴ **Ymateb Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (Cymru) i'r ymgynghoriad** ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Mehefin 2014 [cyrchwyd 1 Hydref 2014]

Er enghraifft, byddai Isafswm Pris Uned o 50c yn golygu na ellid gwerthu potel 70cl o chwisgi am lai na £14.

Ymateb:

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Alcohol Concern Cymru wedi nodi eu bod yn cefnogi'r cynnig hwn, sydd, yn eu barn hwy, yn fesur effeithiol, wedi'i dargedu na chaiff lawer o effaith ar yfwyr cymedrol.

Mae Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (Cymru) yn llwyr gefnogi'r cynnig. Noda fod cyflwyno isafswm pris uned o 50c ynghyd â system o adolygu'r pris yn rheolaidd wrth wraidd strategaeth annibynnol a luniwyd gan y Gynghrair Iechyd Alcohol a Phrifysgol Stirling yn 2013. Cymeradwywyd y strategaeth gan fwy na 70 o sefydliadau, yn cynnwys Alcohol Concern Cymru.

Fodd bynnag, mae'r Gymdeithas Masnachu Gwin a Gwirodydd yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai isafswm pris uned yn mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dywed fod y polisi eisoes yn agored i her gyfreithiol yn yr Alban, ac yn ddiweddar, nododd Llywodraeth y DU ddiffyg tystiolaeth i gefnogi'r broses o gyflwyno isafswm pris uned

Gordewdra

Y Cynnig:

Cyflwyno safonau maeth mewn lleoliadau penodol yn y sector cyhoeddus, fel lleoliadau cyn ysgol a chartrefi gofal, drwy is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau.

Nodau:

Gwella iechyd deietegol a meithrin arferion deietegol da o oedran cynnar (cyn ysgol).

Sicrhau rhagor o ddiogelwch i grwpiau sy'n agored i niwed (cartrefi gofal).

Ceir safonau maeth gorfodol ar hyn o bryd ar gyfer pob bwyd a diod a weinir mewn ysgolion ac ysbytai. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried datblygu safonau maeth ar gyfer lleoliadau ychwanegol, fel lleoliadau cyn ysgol a chartrefi gofal.

Nid oes unrhyw safonau o ran maeth na bwyd ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn ar hyn o bryd, ac mae arolwg gan swyddogion Safonau Masnach yn y rhan helaeth o Gymru wedi datgelu darlun cymysg o ran digonolrwydd bwyd a maeth.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod pobl hŷn yn dibynnu ar gartrefi gofal a'u staff i ddarparu prydau cytbwys a sicrhau bod digon o hylifau ar gael, ac mae'n nodi ei bod am adeiladu ar waith a wnaed mewn ysbytai a rhannu'r arfer gorau hwn gyda lleoliadau eraill.

Ymateb:

Mae Age Cymru yn cytuno â'r egwyddor o gyflwyno safonau maeth mewn cartrefi gofal er mwyn sicrhau bod y trigolion yn cael prydau cytbwys a digon o hylifau (a chymorth i fwyta ac yfed os oes angen), er mwyn atal diffyg maeth a dadhydradu. Ond, mae'n nodi bod angen i safonau maeth geisio osgoi cyfyngu ar ddewisiadau unigol a'r hawl i gael dewis o fwyd.

Mae Age Cymru hefyd yn nodi, er bod gwaith wedi'i wneud i geisio mynd i'r afael â diffyg maeth a dadhydradu mewn ysbytai, fod hyn yn broblem ar rai wardiau o hyd. Amlygwyd methiannau o ran sicrhau bod cleifion yn cael digon o hylifau yn yr adroddiad Ymddiried mewn gofal diweddar (yr adolygiad annibynnol o ansawdd y gofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot).

Felly, daw Age Cymru i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith mewn ysbytai yn ogystal â chartrefi gofal er mwyn gwella maeth a hydradiad.

Mae Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (Cymru) yn cefnogi'r broses o gyflwyno safonau maeth mewn lleoliadau cyn ysgol a chartrefi gofal. Fodd bynnag, noda ei fod yn siomedig iawn o weld diffyg ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y papur hwn ar fesurau i fynd



i'r afael â gordewdra a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Mae'n annog Llywodraeth Cymru i benodi arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gordewdra difrifol a chymhleth; archwilio'r defnydd o drethi ar fwydydd afiach; a rhoi mwy o amlygrwydd i anweithgarwch corfforol a ffyrdd eisteddog o fyw.

Datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd

Fferyllfeydd cymunedol

Y Cynnig:

Ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol baratoi asesiadau o anghenion fferyllol ar gyfer eu cymunedau a phennu ceisiadau fferyllol yn seiliedig ar eu hangen a aseswyd.

Nod:

Atgyfnerthu prosesau cynllunio a rheoli perfformiad mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol er mwyn cefnogi gwaith fferyllfeydd cymunedol i ehangu ac arallgyfeirio gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol.

Noda Llywodraeth Cymru fod gwasanaethau fferyllol yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn modd anghyson, a chred y bydd ei chynnig yn gwella cysondeb ac ansawdd y gwasanaethau fferyllol a ddarperir er mwyn adlewyrchu anghenion iechyd penodol cymunedau yn well.

Noda'r Papur Gwyn os na fydd ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth yn ddigon da, gall Byrddau Iechyd Lleol gyflwyno mesurau gwella a allai gynnwys cymryd camau yn erbyn fferyllfeydd penodol am dorri telerau ac amodau eu gwasanaeth neu wahodd fferyllfeydd eraill i wneud cais i ddarparu gwasanaethau penodol.

Ymateb:

Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn croesawu'r cynnig hwn. Mae'r Gymdeithas yn awgrymu y dylid defnyddio'r asesiad o anghenion fferyllol fel dull o lywio'r broses o ddatblygu gwasanaethau gwell yn genedlaethol, gan sicrhau dull safonol o ddarparu

gofal iechyd gan fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn croesawu'r cynnig hwn. Noda na ellir nodi'r gofyniad ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol yn hawdd bob amser ar hyn o bryd, ond wrth i bob Bwrdd Iechyd gyhoeddi ei asesiad o anghenion fferyllol, daw materion cenedlaethol i'r amlwg a gellir canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau gwell yn genedlaethol.

Mae Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (Cymru) yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd mesurau i sicrhau bod pob fferyllfa ledled Cymru yn cynnig gwasanaethau uwch ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ar lefel 3. Noda y cytunir ar y trefniant presennol ar sail bwrdd iechyd lleol sy'n golygu bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n anghyson ledled Cymru ac nad oes gan rai ardaloedd unrhyw ddarpariaeth fferyllfa lefel 3..

Mynediad i doiledau i'r cyhoedd

Y Cynnig:

Rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i ddatblygu strategaeth ar ddarparu toiledau i'r cyhoedd a mynediad iddynt yn eu hardal..

Nod:

Atgyfnerthu rôl awdurdodau lleol wrth gynllunio ar gyfer darparu toiledau i'r cyhoedd a mynediad iddynt.

Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried argaeledd toiledau i'r cyhoedd ym mhob agwedd ar gynllunio. Yn benodol, gallai hyn gynnwys y ddyletswydd i ystyried sut y byddai awdurdodau lleol yn defnyddio pwerau presennol i sicrhau bod digon o gyfleusterau toiledau yn cael eu darparu i'r cyhoedd; ac argaeledd toiledau i'r cyhoedd a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac mewn adeiladau cyhoeddus e.e. mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, neuaddau cymuned a thref, canolfannau chwaraeon ac amgueddfeydd.

Ymateb:

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn

Mae Age Cymru hefyd yn croesawu'r cynnig hwn yn

fras, ac mae'n ystyried ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir i fynd i'r afael â'r lleihad yn nifer y toiledau cyhoeddus mewn cymunedau yng Nghymru. Fodd bynnag, noda y byddai'n hoffi gweld y ddeddfwriaeth yn mynd ymhellach; byddai'n well ganddo osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu nifer ddigonol o doiledau cyhoeddus hygyrch ledled Cymru.

Rheoleiddio ar gyfer iechyd

Cofrestr genedlaethol ar gyfer triniaethau arbennig

Y Cynnig:

Sefydlu Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru; sy'n cynnwys tyllu cosmetig, tatwio, lliwio'r croen dros dro, aciwbigo ac electrolysis.

Nod:

Mynd i'r afael â materion ehangach yn ymwneud â rheoliadau, gwybodaeth a chymau gorfodi gwell yn y meysydd hyn a diogelu'r cyhoedd ymhellach.

Byddai angen i ymarferwyr a busnesau gyrraedd safonau penodedig er mwyn cofrestru ac wedyn byddai angen iddynt weithio'n unol â safonau penodedig (yn cynnwys glendid, a phrawf person 'addas a phriodol' er mwyn cadw eu cofrestriad.

Ymateb:

Mae BMA Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn, a noda y dylid ystyried ehangu'r gofrestr i gwmpasu gweithdrefnau eraill y gallent achosi niwed, yn cynnwys: gwaredu gwallt â laser; pilio cemegol; llanwyr croen; digroeni / brandio; a mewtblannu o dan y croen (mewtblaniad 3D).

Sylwadau ychwanegol ar y Papur Gwyn

Mae Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru yn siomedig nad yw'r Papur Gwyn yn cynnwys rhaglith sy'n cynnwys nodau ac egwyddorion y gyfraith. Noda fod yn rhaid pennu gweledigaeth glir ar yr hyn y bydd y Bil yn ei gyflawni a'r canlyniadau mesuradwy..

Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd

Awgrymodd Papur Gwyrdd Iechyd y Cyhoedd mai prwpas Bil newydd ar gyfer Cymru fyddai gosod dyletswyddau statudol ar gyrff i ystyried materion iechyd y cyhoedd wrth lunio polisiau.

Fodd bynnag, nid oes cynnig o'r fath wedi'i gynnwys yn y Papur Gwyn. Ar y pwynt hwn, noda'r Papur Gwyn y caiff iechyd ei osod mewn fframwaith ehangach sy'n ategu datblygu cynaliadwy ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol, yn hytrach na'i drin fel mater ar wahân.

Yn eu hymatebion i'r Papur Gwyn, nododd sawl sefydliad y dylai'r ddeddfwriaeth gynnwys asesiadau o effaith ar iechyd statudol ar gyfer polisiau yng Nghymru:

Mae'n hanfodol bod y Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrrff sector cyhoeddus i ystyried iechyd ym mhob polisi, ac mewn unrhyw ddatblygiadau, a allai effeithio ar iechyd a lles pobl Cymru (Confederasiwn GIG Cymru).

Fel y nodwyd yn y Papur Gwyrdd, gwelwn y dylai gosod dyletswyddau statudol ar gyrff i ystyried materion iechyd y cyhoedd fod yn un o brif nodau Bil Iechyd y Cyhoedd (Samariaid Cymru).



Noda Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru ei bod yn 'siom sylweddol' na cheir cynnig i gyflwyno Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd yn statudol. Cred y byddai'r cam wedi golygu y byddai Cymru yn esiampl ryngwladol ym maes iechyd y cyhoedd.

Yn yr un modd, nododd Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (Cymru) ei fod wedi galw am ddyletswydd i ystyried effaith holl bolisiâu Llywodraeth Cymru ar iechyd, a'i fod yn bryderus na chaiff hyn ei gynnig yn y ddeddfwriaeth mwyach.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag **Amy Clifton** (Amy.Clifton@Cynulliad.Cymru), Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwn weld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: assemblywales.org/research.

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter:

@SeneddYmchwil

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at Ymchwil@Cynulliad.Cymru

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

Ymholiad rhif: 14/2549